**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Trwyddedu a Rheleiddio**
**Remote Meeting on Dydd Mawrth, 23ain Mehefin, 2020 at 10.00 am**

| | |
|---|---|
| **CYNGHORWYR YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Sirol B. Strong (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Sirol J. Higginson (Is-Gadeirydd) |
| | Cynghorydd Sirol: A. Easson, M.Lane, R.Roden, J.Treharne, R. Edwards, D. Evans and A. Webb |

**SWYDDOGION YN BRESENNOL:**

| | |
|---|---|
| Linda O'Gorman | Principal Licensing Officer |
| Leigh Beach | Swyddog Trwyddedu |
| Ben Davies | Solicitor |
| Richard Williams | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**YMDDIHEURIADAU:**
Cynghorydd Sirol L. Guppy

1. **<u>Datganiadau o Fuddiant</u>**

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

2. **<u>Cynnig ar gyfer diwygio'r Polisi ac Amodau Llogi Tacsis a Hurio Preifat i gynnwys Trwyddedu Tuk Tuks a Ricsiôs.</u>**

Ystyriwyd adroddiad am y cynnig i ddiwygio Amodau Polisi Tacsis a Cherbydau Hur Prefat 2020 i gynnwys trwyddedu cerbydau Ricsiô.

Wrth wneud hynny nodwyd y pwyntiau dilynol:

- Newidwyd ychydig ar y polisi fel y gosodir drysau teithwyr ar ddwy ochr cerbydau Ricsiôs a Tuk Tuks gydag o leiaf un o'r drysau yn rhoi mynediad ac allanfa.
- Roedd dau aelod o'r Pwyllgor Trwyddedu a Rheoleiddio wedi treialu defnyddio Tuk Tuk o amgylch ardal y Fenni. Ystyriwyd y byddai'r mathau hyn o gerbydau yn addas ar gyfer teithiau lleol.
- Byddid yn adolygu'r geiriad yn y polisi yn amlinellu cod gwisg gyrwyr Tuk Tuk a'i ddiwygio i amlinellu prif gorff y polisi ei hunan.

Penderfynwyd::

(i) mabwysiadu'r Amodau Polisi Tacsis a Cherbydau Hur Preifat (newidiadau i ran 4.3, i ddileu pwyntiau 32 a 33 yn atodiad J a newid Atodiad M y polisi i gynnwys pwyntiau 66 i 92. Bydd y newid hwn yn cynnwys trwyddedu Tuk Tuks a Ricsiôs Trydan a Seiclo (pedicabs).

(ii) diwygio ychydig ar y polisi fel y gosodir drysau teithwyr ar ddwy ochr y cerbydau i Ricsiôs a Tuk Tuk trwyddedig gydg o leiaf un o'r rysau yn rhoi mynediad ac allanfa.

## 3. Deddf Gamblo 2005 - Ffioedd Trwyddedau Safle.

Derbyniwyd adroddiad ym ymwneud â'r ffioedd ar gyfer yr Awdurdod yng nghyswllt Trwyddedau Safleoedd dan Ddedf Gamblo 2005 yn ôlweithredol ar gyfer 21 Mai 2020 – 20 Mai 2021.

Penderfynwyd:

(i) cymeradwyo'r ffioedd a chostau a amlinellir yn Atodiad ! yr adroddiad i ddod i rym yn ôl-weithredol o 21 Mai 2020;
(ii) Bod y ffioedd yn cael eu hadolygu'n flynyddol yn ddilynol.

## 4. I gadarnhau'r cofnodion canlynol:

### 4.1. Y Pwyllgor Trwyddedu a Rheoleiddio dyddiedig 14 Ionawr 2020.

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a Rheoleiddio dyddiedig 14 Ionawr 2020.

### 4.2. Is-bwyllgor Trwyddedu a Rheoleiddio dyddiedig 14 Ionawr 2020.

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod o'r Is-Bwyllgor Trwyddedu a Rheoleiddio a gynhaliwyd ar 14 Ionawr 2020.

**Gorffennodd y cyfarfod am 10.20 am**